



Hanoedd y teulu hwn o [Forgan Fychan](#), ail fab [Morgan Gam](#), a chysylltir ef yn ei gyfnod bore â Blaen Baglan; canodd beirdd o fri (gweler [D. R. Phillips](#)) i aelodau ohono yn yr Oesoedd Canol. Sefydlogwyd y cyfenw arno gan ddisgynyddion William ap Jenkin ap Hopkin o Flaen Baglan; ei ail fab ef, Jenkin William, oedd y cyntaf i ymsefydlu yn Aberpergwm, tua 1500. Ni chododd neb nodedig iawn o'r teulu o hynny hyd ddiwedd y 18fed ganrif; ond ymhell cyn hynny (erbyn 1670, beth bynnag) yr oeddynt yn elwa ar y glo (a'r garreg haearn) ar y stad, gan 'osod' hawliau i ymgymerwyr. Gellid meddwl i'r llinach gyfreithlon ddod i ben gyda George Williams (a fu farw 1796), g r enwog am ei fedr mewn campau. Bernir mai mab ordderch iddo ef (neu efallai i'w dad o'r un enw) oedd REES WILLIAMS (bu farw 1812), a roes ail gychwyn disgleiriach i'r teulu. Yr oedd ef yn ymddiddori mewn llenyddiaeth; ceir ef yn 1802 yn gohebu â Southey; ond daliodd hefyd at Gymreictod nodedig y teulu hwn, a chafodd y bardd [Dafydd Nicolas](#) gartref ym mhlas Aberpergwm am amser maith ganddo. Ar yr ochr ddiwydiannol, Rees Williams a gymerth lofeydd Aberpergwm i'w ddwylo ef ei hunan, yn lle eu 'gosod' - yn 1810, ar ôl cryn ymgyfreithio â'r ymgymerwyr. Merch iddo oedd [Maria Jane Williams](#). Dilynwyd ef gan ei fab hynaf, WILLIAM WILLIAMS, ganwyd 7 Rhagfyr 1788, bu farw 27 Mawrth 1855. Yr oedd ef yn r o gryn ddiwylliant, yn deithiwr mawr, a chyda hynny yn noddwr i lenorion Cymreig. Dyn 'agos at ei bobl' hefyd oedd ei fab REES WILLIAMS, a fu farw 9 Tachwedd 1863; cwbl Gymraeg oedd ei angladd, a phregethwyd er coffa amdano ym mhob addoldy yn yr ardal - cyhoeddodd gweinidog y Bedyddwyr, [T. E. James](#) ei bregeth ef, gyda marwnad. Ei olynydd oedd ei frawd Morgan Stuart Williams, ganwyd 1846, bu farw 13 Rhagfyr 1909. Prynodd ef gastell S. Dunwyd; ond ar ôl rhyfel 1914-9 gwerthwyd y castell, a glofeydd Aberpergwm hefyd.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), yn bennaf 364-72, ond gweler y fynegai hefyd

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 241-3

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804837](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

